# Cath Elmer

elmerc@caerdydd.ac.uk
**LinkedIn**

## Proffil Personol

Rwy’n fyfyriwr yn yr ail flwyddyn sy'n chwilio am gyfle i roi hwb i fy sgiliau cyfathrebu cryf a’m haddysg geodechnegol yn y sector Cynaliadwyedd. A minnau ag enw da am fod yn arweinydd naturiol, rwy'n ymfalchïo yn y ffaith fy mod i wedi mynd yr ail filltir i sicrhau cydweithio rhagorol yn y prosiectau niferus rwy wedi gweithio arnyn nhw, a’r teithiau maes rwy wedi’u gwneud.

## Addysg

**BSc Daeareg, Prifysgol Caerdydd** **Medi 2020–Mehefin 2023**

- Mae’r radd hon wedi’i hachredu gan y Gymdeithas Ddaearegol
- Marc Canran fy Ail Flwyddyn 72%
- Modiwlau perthnasol: Daeareg Adeileddol ac Ymchwiliad Geoffisegol (69%), Gwaith Maes Daearegol, Dadansoddi Data a Sgiliau Proffesiynol (73%), Dadansoddi Petrolewm, Geoynni a Basnau (72%).
- Wedi datblygu sgiliau ysgrifenedig manwl a chywir drwy gwblhau adroddiadau wrth fy nesg.

**Ysgol Ramadeg Bryste** **Medi 2016 – Ebrill 2020**

- Safon uwch: Daeareg A, Daearyddiaeth B, Tecstilau B
- 10 TGAU: Graddau 9-5 gan gynnwys Mathemateg (6) a Saesneg (5)

## Sgiliau Technegol a Sgiliau Gwaith Maes

- Mae mynd ar deithiau preswyl i Dorset, Cernyw a Sbaen wedi datblygu ynof ystod o sgiliau ymarferol sy'n hanfodol ar gyfer daeareg fforio, gan gynnwys gwneud cofnod o waddodion, mapio a dadansoddi adeileddol.
- Hyfedr wrth wneud arsylwadau ar waith maes a gwneud cofnod ohonynt, cymryd mesuriadau ar waith maes, a llunio adroddiadau proffesiynol.
- Profiad o gasglu data geoffisegol, gan gynnwys data magnetig, disgyrchiant a seismig.
- Defnyddiwr cymwys mewn gwahanol fathau o TG, gan gynnwys MS Office ac Excel, Google Earth, PAST a Python. Wedi defnyddio ArcGIS mewn sawl modiwl, yn fwyaf diweddar i greu map daearegol ar gyfer traethawd hir.

## Hanes cyflogaeth

**Gweithiwr yn DPD Warehouse, Caerdydd** **Gorffennaf 2022-Medi 2023**

- Wedi ennill graddau rhagorol wrth gadw’r ddysgl yn wastad rhwng gwneud hynny a gwaith rhan-amser yn llwyddiannus, gan ddangos sgiliau rheoli amser hylaw ac ymrwymiad i ragoriaeth academaidd.
- Wedi trefnu bod y danfoniadau a ddaeth i law wedi’u sortio’n effeithlon, gan ddangos fy ymagwedd drefnus a rhesymegol.
- Gweithio'n annibynnol, gan lynu wrth safonau iechyd a diogelwch llym ar bob adeg.

**Cynorthwyydd Gwerthu yn Reeves the Baker, Bryste** **Tachwedd 2021-Gorffennaf 2022**

- Wedi cynnig gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid, gan ddelio ag anghenion y cwsmer a’i bryderon, gan ddatblygu’r sgil o feithrin perthynas ag ymwelwyr newydd a rheolaidd.
- Wedi gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau gweithrediad esmwyth yn ystod cyfnodau prysur, gan gyfrannu at awyrgylch cadarnhaol yn y gweithle a gwaith tîm effeithiol.

- Wedi datblygu gwytnwch a'r gallu i fod yn bwyllog o dan bwysau, gan gynnal ymagwedd gadarnhaol bob amser, gan gynnwys yn ystod cyfnodau prysur neu straenus.

## Sgiliau Allweddol

- **Gwytnwch:** Wedi dangos gwytnwch wrth reoli sefyllfaoedd heriol ac wedi aros yn bwyllog yn ystod sifftiau llafurus, gan sicrhau gwasanaeth o safon a boddhad cwsmeriaid.

- **Sgiliau datrys problemau a dadansoddi:** Wedi defnyddio sgiliau dadansoddi a datrys problemau technegol i fynd i'r afael â heriau cymhleth ym maes daeareg, megis dehongli data, dadansoddi gofodol, a modelu.

- **Cyfathrebu:** Wedi rhoi hwb i'm sgiliau cyfathrebu ar lafar mewn sawl rôl, gan ymfalchïo yn fy ngallu i gyfathrebu gwybodaeth dechnegol a chymhleth mewn modd clir a hygyrch yn aml.

## Profiad Gwirfoddoli

**Cynrychiolydd Academaidd y Myfyrwyr, Prifysgol Caerdydd** — **Hydref 2022-presennol**

- Wedi casglu adborth academaidd a'i gyfleu i staff mewn modd clir ond llawn gwybodaeth.
- Wedi cysylltu â chynrychiolwyr eraill a staff i ddatblygu atebion addas i faterion o ran y cwrs.

**Ysgrifennydd yng Nghymdeithas y Ddaear, Prifysgol Caerdydd** — **Hydref 2022-presennol**

- Wedi cysylltu ag aelodau'r pwyllgor a sefydliadau allanol i gynllunio digwyddiadau cymdeithasol megis digwyddiadau ffurfiol, yn ogystal â chynorthwyo â chynnal y gymdeithas yn gyffredinol.
- Gwnaeth y rôl ddatblygu fy sgiliau trefnu a rheoli.

**Uwch-fyfyriwr sy'n Mentora, Prifysgol Caerdydd** — **Medi 2021-Chwefror 2022**

- Roeddwn i'n Fentor cyfeillgar, a wnaeth arwain ar sesiynau rhithwir wedi'u teilwra megis sesiynau ar adolygu ac awgrymiadau academaidd i fyfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf.
- Wedi datblygu hyder, fy sgiliau cyflwyno ar-lein a'r gallu i arwain.

**Gwirfoddolwr yn Nhîm Croesawu Glasfyfyrwyr, Prifysgol Caerdydd** — **Medi 2021 a 2022**

- Wedi cynorthwyo a thywys myfyrwyr newydd mewn modd agos-atoch ac empathig.
- Wedi gwella fy sgiliau cyfathrebu ar lafar a'r gallu i weithio'n hyblyg o dan gyfarwyddyd cryno.

## Gwybodaeth ychwanegol

- Trwydded yrru lawn a glân y DU

## Diddordebau

Yn fy amser sbâr, rwy'n mwynhau cymryd rhan mewn amryw weithgareddau yn yr awyr agored a rhoi cynnig ar bethau newydd. Rwy'n aelod rheolaidd o Glwb Mynydda'r Brifysgol sydd wedi fy ngalluogi i fforio lleoedd newydd a chwrdd â phobl newydd. Mae gen i angerdd dros gynaliadwyedd, gan gadw'n gyfredol am y mentrau a'r cynlluniau mwyaf diweddar, ac ar hyn o bryd, rwy'n mwynhau arbrofi gyda ryseitiau llysieuol.

## Geirdaon ar gael ar gais